

Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg CCAUC Lle gwag ar gyfer aelod annibynnol

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn chwilio am aelod annibynnol newydd ar gyfer ei Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Beth mae'r Pwyllgor yn ei wneud

Mae gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg rôl allweddol i'w chwarae mewn monitro digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu corfforaethol, rheoli mewnol a rheoli risg ar gyfer CCAUC a darparwyr addysg uwch yng Nghymru ar ran Cyngor CCAUC. Mae hyn yn cynnwys asesiadau rheolaidd o sefydlogrwydd ariannol a phroffiliau risg pob darparwr addysg uwch a'r sector addysg uwch yn gyffredinol.

Fel rheol mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn yn swyddfa CCAUC ym Medwas, Caerffili. Cynhelir pob cyfarfod yn ystod oriau swyddfa arferol ac fel rheol maent yn para tair awr. Yn ychwanegol at fynychu'r cyfarfodydd, bydd rhaid i chi ymrwymo amser i ddarllen papurau'r cyfarfodydd a gwybodaeth gefndir.

Mae rhagor o fanylion am [aelodaeth a chylch gwaith](#) y Pwyllgor ar gael ar ein gwefan ni (www.hefcw.ac.uk).

Y rôl

Byddwch yn cynnig persbectif annibynnol, allanol ac yn darparu swyddogaeth gefnogi a herio i waith y Pwyllgor.

Yn ddelfrydol bydd gennych brofiad o reoleiddio, rheolaeth ariannol, archwilio neu reoli risg yn y sector cyhoeddus neu breifat. Byddai cael rhywfaint o'r profiad hwn yn y sector addysg uwch yn ddefnyddiol.

Fel aelod o bwyllgor CCAUC, bydd disgwyl i chi gadw at yr egwyddorion sydd wedi'u datgan yn y [Cod Ymarfer ar gyfer Aelodau CCAUC](#). Hefyd bydd yn ofynnol i chi ddatgan eich holl fuddiannau perthnasol drwy lenwi ffurflen datgan buddiannau, a bydd y manylion ar gael yn gyhoeddus ar wefan CCAUC.

Yn anffodus, byddai cyflogeion neu lywodraethwyr presennol mewn sefydliadau sy'n derbyn cyllid CCAUC a/neu sefydliadau sy'n dod o dan ofynion rheoleiddiol CCAUC yn cael eu hystyried fel unigolion â buddiannau'n gwrthdaro a fyddai'n amharu'n ddifrifol ar eu gallu i weithredu fel aelod o'r pwyllgor, ac felly ni ddylent wneud cais am y lle gwag hwn.

Telerau penodi

Mae'r rôl am gyfnod penodol o dair blynedd. Rôl ddi-dâl yw hon ond rydym yn talu [costau teithio a chynhaliath](#).

I gael gwybod mwy am rôl neu waith y Pwyllgor, cysylltwch â Dale Hall, Ysgrifennydd y Cyngor (dale.hall@hefcw.ac.uk; Rhif Ffôn 029 2085 9665).

Ceisiadau

Mae CCAUC yn credu bod amrywiaeth yn gwella penderfyniadau ac rydym yn croesawu ymholiadau o bob rhan o'r gymuned. Mae gennym ddiddordeb penodol mewn derbyn ceisiadau gan unigolion sy'n cael eu tangynrychioli ar y Pwyllgor ar hyn o bryd, gan gynnwys merched, pobl anabl, DLIE ac LHDT+. Bydd pob ymgeisydd yn cael ei drin yr un fath a phenodir ar sail rhinweddau. Rydym yn croesawu ceisiadau a gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn unol â deddfwriaeth diogelu data, ni fydd manylion yr ymgeiswyr aflwyddiannus, gan gynnwys eu CV, yn cael eu cadw am gyfnod hirach na sy'n angenrheidiol at ddibenion prosesu'r cais hwn. Gofynnir am eich caniatâd ysgrifenedig os bydd CCAUC yn dymuno cadw eich manylion ar gyfer ceisiadau yn y dyfodol.

Os ydych yn credu bod gennych chi wybodaeth ac arbenigedd i ychwanegu gwerth fel aelod o'n Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, anfonwch **ddatganiad ymgeisio un dudalen yn rhoi sylw i ofynion y rôl, a hefyd eich CV a'r [ffurflen monitro cydraddoldeb](#), erbyn 30 Tachwedd 2018 (Dyddiad cau newydd):**

Ar e-bost:

dale.hall@hefcw.ac.uk

Drwy'r post:

Dale Hall

Ysgrifennydd y Cyngor

CCAUC

Tŷ Afon

Ffordd Bedwas

Bedwas

Caerffili

CF83 8WT